

Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru

Prifysgol De Cymru, Casnewydd

11:00 – 15:00 Ddydd Iau 23 Ionawr 2020

Yn bresennol:

Yr Arglwydd Burns (Cadeirydd)
Lynn Sloman
James Davies
Stephen Gifford
Elaine Seagriff
Peter Jones
Peter McDonald (Ysgrifenyddiaeth)
Matt Jones (Ysgrifenyddiaeth)
Sam Thomas (Ysgrifenyddiaeth)
Karen Fulford (Ysgrifenyddiaeth)
Mari Williams (Ysgrifenyddiaeth)
George Bate (Tîm Technegol)
Gareth Potter (Trafnidiaeth Cymru)

Ymddiheuriadau

Beverly Owen

Cyflwyniad a Diweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth

Gwnaeth yr Arglwydd Burns agor y cyfarfod a rhannodd ei farn ynghylch y gweithgareddau diweddar, gan gynnwys yr ymateb i adroddiad *Diweddariad Cynnydd* y Comisiwn ac argymhellion 'carlam'.

Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth ddiweddariad ar eu gwaith diweddar

Hysbyswyd y Comisiwn y byddai ei waith bellach yn canolbwyntio ar ymyriadau mwy hirdymor. Cafwyd trafodaeth fer ynghylch sut y byddai'r Comisiwn yn mynd i'r afael â'r gwaith yma.

Ymgysylltu â Rhanddeiliaid

Gwnaeth yr Ysgrifenyddiaeth gyflwyno'r newyddion diweddaraf ynghylch gwaith ymgysylltu â rhanddeiliaid sydd wedi'i gynnal hyd yma a disgrifiwyd y cynlluniau ar gyfer gweddill y flwyddyn.

Mae'r cynlluniau o safbwynt ymgysylltu â rhanddeiliaid dros y misoedd nesaf yn cynnwys: cyfarfodydd â rhanddeiliaid allweddol, arolygon teithio mewn safleoedd strategol ac ymgysylltu â'r cyhoedd ar-lein.

Fframwaith Asesu: amcanion a meini prawf

Cafwyd trafodaeth fanwl ynghylch y canlynol: amcanion cyffredinol, dangosyddion, matrices a meini prawf asesu.

Cytunodd y Comisiwn ar yr egwyddorion sylfaenol i'w dilyn wrth werthuso ymyriada

Dadansoddi traffig a mannau eithriadol o brysur

Cyflwynodd yr Ysgrifenyddiaeth drosolwg ar waith dadansoddi traffig pellach ac awgrymodd y dylem strwythuro rhai o'n hymyriadau ar sail safleoedd strategol allweddol

Gwnaeth y Comisiwn drafod y mannau penodol ble mae llawer iawn o draffig yn ymuno â'r M4 neu'n gadael y draffordd.

Cafodd yr opsiynau ar gyfer gwella trafndiaeth ar drenau o fewn y rhanbarth eu trafod yn gryno, a byddant yn cael eu trafod eto mewn rhagor o fanylder mewn cyfarfodydd yn y dyfodol.

Modelu

Eglurodd y Tîm Technegol y model a fydd yn cael ei ddefnyddio i amcangyfrif effaith rhai ymyriadau. Gwnaeth y Comisiynwyr drafod rhinweddau a chyfyngiadau posibl y model arfaethedig.

Bydd y model yn cael ei ddefnyddio ochr yn ochr â dulliau dadansoddi eraill. Bydd rhagor o waith yn cael ei wneud er mwyn deall sensitifrwydd y model i ysgogiadau posibl a hefyd i ddeall dulliau dadansoddi eraill y mae modd eu defnyddio.

Y Cyfarfod Nesaf

Caiff y cyfarfod nesaf ei gynnal ddydd Iau 13 Chwefror.